# Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post

Datganiad ac ymgynghoriad

-

Fersiwn heb fod yn gyfrinachol: mae ✂ yn nodi'r golygiadau cyfrinachol

**Datganiad ac Ymgynghoriad**

Dyddiad Cyhoeddi: 29 Mawrth 2018
Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 24 Mai 2018

# Gair am y ddogfen hon

Ofcom sy'n gyfrifol am reoleiddio'r farchnad bost yn y DU. Wrth wneud hyn, rydym yn cael costau. Fe wnaethom gyhoeddi cynigion i newid y ffordd rydym yn adennill y costau hyn ym mis Gorffennaf 2017. Mae’r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad terfynol ynghylch y ffordd byddwn yn adennill ein costau wrth reoleiddio’r sector post yn y dyfodol.

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am adennill costau cyrff eiriolaeth defnyddwyr, megis Cyngor ar Bopeth, yng nghyswllt ei waith yn y sector post. Roedd ein hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017 hefyd yn cynnwys cynigion i newid y ffordd y caiff y costau hyn eu hadennill. Mae’r ddogfen hon yn nodi cynigion diwygiedig ynghylch y ffordd rydym yn adennill costau defnyddwyr yng nghyswllt gwasanaethau post.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb gweithredol 1

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Wrth gynnal swyddogaethau'r gwasanaethau post, mae Ofcom yn cael costau gweinyddol. Mae Ofcom yn adennill y costau hyn drwy daliadau gweinyddol y mae'n rhaid eu talu i Ofcom drwy weithredwyr post yr ydym ni'n penderfynu sy'n atebol i dalu ffioedd o'r fath yn unol â'r ddeddfwriaeth. Bob blwyddyn, rhaid pennu ein taliadau gweinyddol er mwyn iddynt fod yn ddigon i gwrdd â chostau blynyddol

Ofcom i gyflawni'r swyddogaethau hynny, ond heb fod yn fwy na hynny. [1]

1.2 O dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 ("**Deddf 2011**"), mae'n rhaid i Ofcom godi taliadau gweinyddol ar weithredwyr post perthnasol yn unol â'i egwyddorion codi ffioedd. Mae rhwymedigaeth ar weithredwyr post i dalu costau o'r fath i Ofcom wedi'i nodi yn ein Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl ar gyfer gwasanaethau post ("**SoCP**").

1.3 Ar wahân i hynny, dan adran 51 o Ddeddf 2011, efallai y bydd Ofcom hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr post (neu bob gweithredwr post a chanddo ddisgrifiad penodol) dalu am gostau am waith sy'n cael ei gyflawni gan gyrff eiriolaeth defnyddwyr y Deyrnas Unedig ("**CABs**") yng nghyswllt gwasanaethau post, Mae'r CABs yn y DU yn golygu Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban, a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon.[2] Bydd y taliadau hynny'n cael eu hadennill drwy Ofcom yn sgil y rhwymedigaethau rydym yn eu gorfodi ar weithredwyr post penodol y mae'n rhaid iddynt dalu dan Amod Amddiffyn Defnyddwyr 1 ("**CP1**").[3] Fodd bynnag, Nid oes gan Ofcom unrhyw rôl i'w chwarae o ran pennu lefel ffioedd y cyrff eiriolaeth defnyddwyr nac yng nghyswllt archwilio'r gwaith o gyfrifo costau eiriolaeth defnyddwyr. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw hyn. Yn y bôn, dim ond penderfynu ar ba sail y dylid adennill costau eiriolaeth defnyddwyr ac adennill costau o'r fath ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yr ydym ni'n gyfrifol amdano.

1.4 Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ("**Ymgynghoriad Gorffennaf 2017**") lle gwnaethom gynnig diwygio'r SoCP (ar gyfer adennill ein costau gweinyddol) a CP1 (ar gyfer adennill costau'r CAB).[4] I grynhoi, fe wnaethom gynnig y byddai'n rhaid i weithredwyr post sy'n darparu gwasanaethau post mynediad neu swmp, yn ogystal â gweithredwyr post sy'n darparu gwasanaethau danfon llythyrau pen-i-ben,

---

[1] Bob blwyddyn, mae ein proses o osod ffioedd yn seiliedig ar gostau rheoleiddio post cyllidebol Ofcom ar gyfer blwyddyn ariannol nesaf Ofcom (h.y. 1 Ebrill i 31 Mawrth), gydag unrhyw gost adennill sydd o dan neu dros y gwariant o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn cael ei hadlewyrchu yn y dâl weinyddol i randdeiliaid.

[2] Yn y ddogfen hon, pan fyddwn yn cyfeirio at y "CABs", rydym yn cyfeirio (oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall) ar y cyd at Gymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth (a elwir hefyd yn Gyngor ar Bopeth), Cymdeithas Canolfannau Cyngor ar Bopeth yr Alban (a elwir hefyd yn Gyngor ar Bopeth yr Alban) a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon (a elwir hefyd yn Gyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon).

[3] Mae fersiwn cyfun answyddogol o Amod Amddiffyn Defnyddwyr 1 ("CP1") ar gael ar ein gwefan drwy'r ddolen hon: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/8352/con1.pdf

[4] Edrychwch ar ein dogfen ymgynghori '*Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post: Adolygiad*', a gyhoeddwyd ar 27 Gorffennaf 2017, sydd ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/105238/consultation-postal-regulation-review.pdf

gyfrannu at gostau gweinyddol Ofcom yn ogystal â chostau’r CABs. Fe wnaethom hefyd gynnig lleihau’r trothwy y byddai’n rhaid i weithredwyr dalu costau Ofcom a chostau’r CABs ar ôl mynd heibio iddo, o refeniw perthnasol blynyddol o £10 miliwn i £5 miliwn.

## Adennill costau gweinyddol Ofcom

1.5 Ar ôl ystyried yr ymatebion a gawsom, rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynigion yn Ymgynghoriad Gorffennaf 2017 heb eu haddasu o gwbl o ran y broses o adennill ein costau gweinyddol ein hunain.

1.6 Rydym felly wedi diwygio'r SoCP (sydd wedi'i gyhoeddi yn Atodiad 5) er mwyn pennu’r gweithredwyr post hynny y mae’n rhaid iddynt dalu ein costau gweinyddol gan fod pob un ohonynt yn berthnasol i'n disgrifiad o ‘weithredwr post perthnasol’ (fel y nodir yn y SoCP). I grynhoi, bydd yn rhaid i weithredwyr post sy'n darparu gwasanaethau llythyrau pen-i-ben a/neu wasanaethau post swmp (gan gynnwys mynediad), ac sy'n cynhyrchu ‘trosiant perthnasol’ dros £5 miliwn yn y flwyddyn ariannol berthnasol, dalu tâl weinyddol.

1.7 Bydd ein penderfyniad yn dod i rym o flwyddyn codi tâl 2018/19 (h.y. y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019). Bydd y swm y mae’n rhaid i bob gweithredwr post perthnasol ei dalu yn cael ei gyfrifo ar sail refeniw perthnasol pob gweithredwr yn y flwyddyn ariannol yn y 12 mis diwethaf ond un cyn y flwyddyn codi tâl.

1.8 O ganlyniad i’r penderfyniad hwnnw, bydd yn rhaid i ni gael data gan weithredwyr atebol o’r fath er mwyn i ni ddilysu eu trosiant perthnasol, cyfrifo cyfran pob gweithredwr o refeniw perthnasol ac felly penderfynu ar lefel unrhyw dâl weinyddol y mae’n rhaid i weithredwr penodol ei dalu. Felly, rydym hefyd yn cyhoeddi Cais Cyffredinol am Wybodaeth yn Atodiad 6 sydd wedi'i anelu at weithredwyr post y mae’n rhaid iddynt gyfrannu at gostau gweinyddol Ofcom. Mae’r Cais Cyffredinol hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol yn ôl i gyfraith i bob un o’r gweithredwyr hynny ddarparu data perthnasol am eu refeniw i Ofcom ar gyfer y flwyddyn codi tâl dan sylw erbyn 5pm fan bellaf ar y diwrnod gwaith diwethaf ym mis Mai bob blwyddyn, nes byddant yn cael hysbysiad arall gan Ofcom. Bydd y Cais Cyffredinol am Wybodaeth yn dod i rym ym mlwyddyn codi tâl 2018/19, sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018, i weithredwyr atebol ddarparu eu refeniw perthnasol priodol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

## Adennill costau eiriolaeth defnyddwyr CABs am wasanaethau post

1.9 Yng ngoleuni’r ymatebion a gawsom i’n Hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017, a’r dystiolaeth bellach rydym wedi'i chael ers ein hymgynghoriad, rydym wedi diwygio’r cynigion cychwynnol a nodwyd gennym yn ein Hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017 o ran adennill costau CABs am wasanaethau post. Dangosodd y dystiolaeth bellach hon, ymysg pethau eraill, bod y CABs yn gwneud llawer mwy o waith gyda pharseli na’r hyn a ragwelwyd gennym yn wreiddiol yng nghynigion ein Hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017.

1.10 Am y rhesymau a nodir yn Adran 4 y ddogfen hon, rydym nawr yn cynnig diwygio CP1 (gweler Atodiad 7 am ein hysbysiad statudol ynghylch y newidiadau manwl arfaethedig), er mwyn sicrhau y byddai gweithredwyr post sy'n darparu'r mathau canlynol o wasanaethau post yn gorfod cyfrannu at gostau eiriolaeth defnyddwyr CABs am wasanaethau post:

- 'gwasanaeth post llythyrau perthnasol' (sy'n cyfeirio at bob gwasanaeth llythyrau unigol ac mewn swmp sy'n cael ei ddarparu ar sail pen-i-ben); a/neu
- 'gwasanaeth post parseli perthnasol' (sy'n cyfeirio at bob gwasanaeth parseli domestig yn y DU yn amodol ar gyfyngiadau penodol o ran maint a phwysau).

1.11 Ar ben hynny, mae ein cynigion diwygiedig yn nodi mai dim ond os bydd gweithredwyr post o'r fath yn mynd dros y trothwyon refeniw perthnasol blynyddol canlynol y byddai'n rhaid iddynt gyfrannu at y costau hynny:

- yng nghyswllt 'gwasanaethau post llythyrau perthnasol', refeniw perthnasol o dros £10 miliwn; ac
- yng nghyswllt 'gwasanaethau post parseli perthnasol', refeniw perthnasol o dros £350 miliwn.

1.12 Er ein bod yn parhau â'r farn a nodwyd gennym yn Ymgynghoriad Gorffennaf 2017, sef y dylai gweithredwyr post sy'n darparu 'gwasanaethau post llythyrau perthnasol' mewn egwyddor gyfrannu at y costau hyn, nid ydym yn cynnig bellach y dylai gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn unol â chytundeb mynediad gorfodol gael eu cynnwys yn y rhwymedigaeth honno. Y rheswm am hyn yw gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu rhwng busnesau ac nad ydynt yn debygol o fod yn berthnasol i waith y CABs. Ar ben hynny, rydym wedi newid ein barn o Ymgynghoriad Gorffennaf 2017 yng nghyswllt gwasanaethau parseli am y rhesymau a drafodir yn Adran 4 y ddogfen hon, ac rydym bellach yn credu y dylai gweithredwyr post sy'n darparu rhai gwasanaethau parseli perthnasol gyfrannu at gostau eiriolaeth defnyddwyr.

1.13 Mewn ymateb i'n Hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom hefyd gynnig y dylai costau penodol CABs yng nghyswllt darparu cynllun cynghori defnyddwyr cyhoeddus drwy linell gymorth i alwyr (h.y. costau galwadau) gael eu hadennill gan yr un grŵp o weithredwyr post â chostau heb gynnwys galwadau, ar yr amod bod gweithredwr post perthnasol yn cynhyrchu gwerth £100 o leiaf o alwadaubob blwyddyn. Ni wnaeth unrhyw randdeiliad wrthwynebu'r cynnig hwn.

1.14 Rydym ni felly'n cynnig gwneud ein diffiniad diwygiedig o beth sy'n cael ei ystyried yn wasanaethau post yn berthnasol i 'weithredwr post perthnasol' o ran adennill costau heb gynnwys galwadau a chostau galwadau. O ganlyniad i hyn, bydd yn rhaid i bob gweithredwr sy'n darparu gwasanaethau post a llythyron perthnasol gyfrannu at gostau llinell gymorth i alwyr os bydd yn mynd dros isafswm y trothwy sylfaenol. Ar ben hynny, fel y cynigiwyd yn ein Hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017, rydym wedi gwneud rhywfaint o newidiadau i CP1 o ran adennill costau galwadau i adlewyrchu rhywfaint o newidiadau deddfwriaethol diweddar o ran sut mae adran 51 o Ddeddf 2011 yn cael ei geirio, yn debyg i'r rheini a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Alban 2016.

1.15 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion diwygiedig yn Adran 4 ac Atodiad 7 y ddogfen ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 8 wythnos a'r dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 5pm, dydd Iau 24 Mai 2018. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i ymateb.